PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 29 Gorffennaf 16, 2026 50c.

## Derbyn aelodau newydd



Braint oedd cael derbyn tri o bobl ifanc yn aelodau llawn o eglwys Capel Seion, Drefach, Llanelli yn ddiweddar

Derbyniwyd (o'r chwith i'r dde) Jessica Rees, Sarah Morgan ac Iwan Morgan mewn oedfa gymun arbennig ar ddydd Sul 5 Gorffennaf. Roedd yr oedfa yng ngofal ein gweinidog sef y Parchg Guto Llywelyn Fe offrymwyd gweddi bwrpasol iawn gan ein cyn weinidog y Parchg Gwyn Elfyn. Bu'r tri a dderbyniwyd yn aelodau ffyddlon o'r ysgol Sul gan gymryd rhan yn oedfaon y plant yn ogystal â'r gymanfa. Tystiodd y tri bod cefndir yr ysgol Sul wedi eu helpu i ddatblygu yn eu gyrfaoedd.

Croeso mawr i'r tri i'n plith.

**Ann Thomas**
(Ysgrifennydd Capel Seion, Drefach)

## Pen-blwydd arbennig



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Williams sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 30 Mehefin. Mae'n aelod yng nghapel Berea, Pentre Berw, Ynys Môn ac yn cael gofal ers blwyddyn yng nghartref Plas Mona, Llanfairpwll. Mae hi'n edrych yn wych yn y llun i feddwl ei bod yn 100 oed ac roedd wrth ei bodd yn cael sgwrs gyda phawb. Am bron i ugain mlynedd bu yn ysgrifennydd y cyhoeddiadau yn y capel, a hi arferai roi galwad i'r pregethwyr ganol yr wythnos i wneud yn siwr 'fod popeth yn iawn' ar gyfer y Sul canlynol, sgyrsiau difyr dwi'n siŵr.

Yn 2011 Megan Williams gychwynnodd y Clwb Gweu yn y capel, oedd mor llewyrchus gydag aelodau o nifer o gapeli yn y cylch. Cynhyrchodd y clwb filoedd o eitemau wedi eu gweu a'u crosio a'u hanfon i wledydd tlawd dwyrain Ewrop trwy Teams4U. Rydym yn dal i weld ei cholli yn y capel ond braf yw mynd i'w gweld a gwybod y bydd eisiau hanes y capel arni ac yn dal i fod â diddordeb ym mhopeth yr arferai ymwneud â hwy.

Cafodd ddiwrnod arbennig ddydd Mawrth a'r holl ymwelwyr ddaeth i'w gweld yn brawf o'i phoblogrwydd mewn sawl cylch a phob dymuniad da iddi ar ddathlu pen-blwydd mor arbennig.

Yn y llun gwelir y Parchedig Ddr Geraint Tudur, cadeirydd Cyfundeb Môn a Mr Irfon Morris, ysgrifennydd y cyfundeb a ddaeth i'w gweld gyda cherdyn a thusw hardd o flodau. Does dim rhaid dweud fod Megan wedi ei phlesio'n arw ac yn hynod o ddiolchgar am yr ymweliad a'r blodau hardd.

**Margaret Evans**

## Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
## *Rhan 1*

Ydych chi wedi clywed y dywediad 'Not my first rodeo?' Wel, gyfeillion, dyma fy rodeo cyntaf fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, gan obeithio yr arhosaf ar gefn y ceffyl gydol yr amser.

Mae wedi bod yn naw mis o newid yn Nhŷ John Penri. Byddwch yn falch o ddeall fod llawer am aros yr un peth a bod rhai pethau am newid, a hynny er gwell, gobeithio. Rydym yn ymwybodol o'n traddodiad ni, o ble y daethom ond yn benderfynol hefyd o fynd ymlaen tua'r dyfodol mewn ysbryd o lawenydd, cydweithio ac o ymagwedd gadarnhaol, er clod i Dduw.

Rwy am gychwyn yr hanes gyda Thri Gŵr Doeth. Mae'r tri gŵr doeth yn yr hanes hwn wedi rhannu doethinebau yr ydym ni fel tîm yn Nhŷ John Penri yn eu cario gyda ni.

### Dyfrig

Y gŵr doeth cyntaf, yw Dyfrig Rees, fy rhagflaenydd. Mi fu Dyfrig yn fos arnaf hefyd ac felly, cefais y profiad ardderchog o dreulio amser yn ei gwmni, o rannu'r daith gydag e yn ystod ei gyfnod yn Nhŷ John Penri ac o ddysgu ganddo. Diolch Dyfrig am bob caredigrwydd, cyngor ac arweiniad.

*parhad ar dudalen 2*

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol
## *Rhan 1 – parhad*



Yn ystod ein cyfnod o gydweithio mae un dyfyniad yn aros gyda fi o eiddo Dyfrig, sef 'The paralysis of analysis', a bod angen i ni ochel rhag hynny. Hynny yw, bod modd gor-feddwl am rywbeth nes clymu'ch hun yn glymau fel nad oes modd gwneud affliw o ddim wedyn. Rydym ni'n byw mewn amserau 'diddorol' ys dywed yr hen felltith Tsineaidd, 'Boed i chi fyw mewn amserau diddorol.' A dyma ni mewn amserau diddorol. Felly mae gennym, fel Cristnogion, waith i'w wneud, yma yn y byd hwn, *nawr*, yn fwy nag erioed a dydy clymu'n hunain mewn clymau o or-feddwl yn ddim lles i ni, nac i neb arall. Rhaid i ni fod yn barod i wneud pethau yn ysbryd cariad ymarferol Iesu Grist. Rydyn ni'n gwybod sut i ymddwyn a meddwl, fe ddysgodd Iesu ni am hynny'n gyflawn. Ac felly, rydym fel tîm yn y swyddfa yn cario'r geiriau yna o ddoethineb gan Dyfrig, gan fwrw ymlaen yn ysbryd cariad Crist.

### Geraint

Yr ail ŵr doeth, yw Geraint Tudur, y cyn cyn Ysgrifennydd Cyffredinol. Bu Geraint yn fos arnaf i hefyd, a bûm yn gweithio gyda Geraint yn ystod fy nghyfnod cyntaf yn Nhŷ John Penri. Gosododd y safon i fi am sut oedd gweithio i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Diolchaf am bob anogaeth a chynhaliaeth ac am bob arweiniad. Weithiau, mae gweithio i sefydliad fel Undeb yr Annibynwyr yn medru ymddangos yn anferthol, yn llethol, yn rhywbeth amhosibl ar adegau. Ond mae gair o ddoethineb gan Geraint a basiwyd lawr gan ei dad, yr Athro R. Tudur Jones, yn atseinio yn fy mhen. Sef hwn: 'Rho dy fricsen yn y wal, gosod hi'n gymen a thaclus, gwna'n siŵr ei bod hi'n rhan gadarn o'r wal, cama 'nôl a chymer olwg ar dy waith i wneud yn siŵr i ti wneud dy waith gorau, yna cerdda i ffwrdd, ti wedi gwneud dy waith.' Rydyn ni'n gweithio ar wella gwasanaeth Tŷ John Penri i'r Undeb, ei wneud yn lle da ac effeithlon fydd yn cyfoethogi bywyd yr Undeb a'r eglwysi.

### Dewi

A'r gŵr doeth olaf, yw Dewi Myrddin Hughes, sef y cyn cyn *cyn* Ysgrifennydd Cyffredinol. Y mae yna golled enfawr ar ôl Dewi a hiraeth mawr amdano, y dyn doeth a bonheddig oedd yn Gristion o'i gorun i'w sawdl. Ces y fraint o sgwrsio gyda Dewi yn ystod y misoedd olaf. Byddai'n dangos diddordeb yn hynt a helynt yr Undeb a Thŷ John Penri gan ein hannog ymlaen. Y tro olaf i mi ei weld, gofynnodd; 'Ydy Tŷ John Penri am aros yn Llansamlet?' Ces fy llorio, oherwydd fel rhan o'r sgyrsiau lu fu yn Nhŷ John Penri'n ddiweddar, fe godwyd y syniad bod modd i ni esblygu, newid a datblygu, a hynny er lles yr Undeb, ac er mwyn ennyn egni newydd yn ein plith fel Cristnogion. Yn y sgyrsiau hynny, fe gododd y cwestiwn, ydy Tŷ John Penri yn y man iawn? Cyn i mi allu holi Dewi ymhellach, fe atebodd yn eiddgar; 'Achos, cofiwch Elinor, does dim yn sanctaidd yn hyn o beth. Rhaid i'r Undeb weithredu yn yr ysbryd hwnnw, a bod newid pethau ac addasu, yn beth iachus ac angenrheidiol.' Atebais, fod yn rhaid bod yna rywbeth yn y gwynt am ein bod ni wedi trafod y posibilrwydd ond heb feddwl llawer mwy amdano. Teimlais fod Dewi drwy ddweud hyn yn ein hannog i fod â meddyliau agored, ac i ystyried *pob dim* yn weddigar gan edrych tua'r dyfodol mewn gobaith. Ac felly, yr ydym ni yn Nhŷ John Penri yn ceisio edrych ar bob dim gyda llygaid newydd a hynny gyda'r Ysbryd Glân yn ein harwain.

A dyna ddiwedd fy hanes am y tri gŵr doeth, gyda diolch iddyn nhw bob un am eu gwaith, eu harweiniad a'u doethineb.

# Proffwydi Cymru heddiw

Fe ges i'r fraint aruthrol yn ddiweddar o gyfweld â thri awdur o Gymru yng Ngŵyl y Gelli ar gyfer rhaglen BBC Radio Wales, *All Things Considered*. Y Parchedig Nathan Munday, gweinidog cyswllt Heath Evangelical oedd yr un cyntaf, y Parchedig Mark Clavier, deon yn yr Eglwys yng Nghymru oedd yr ail, ac Elinor Wyn Reynolds, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, oedd y trydydd. Beth yw'r cysylltiad rhwng y tri? Mae'r tri ohonynt yn ddisgyblion i Iesu Grist sydd wedi profi galwad i wasanaeth Cristnogol llawn amser, ac mae'r tri ohonynt wedi ysgrifennu nofel yn ddiweddar.

### Morfila

Prif bwynt y cyfweliad oedd gofyn: a all ysgrifennu ffuglen fod yn rhan o wasanaethu Iesu Grist? Pam ysgrifennu nofelau yn hytrach na phregethau? *Whaling* yw llyfr Nathan Munday, nofel sy'n adrodd hanes grŵp o Grynwyr o Nantucket a ddaeth i sefydlu cymuned yn Aberdaugleddau. Yn fuan iawn ar ôl iddyn nhw gyrraedd, mae morfil yn cyrraedd hefyd ac yn mynd yn sownd ar y traeth. Mae'r nofel yn archwilio ymateb y bobl leol i'r mewnfudwyr – y morfil a'r Americanwyr. Mewn ffordd glyfar dros ben mae Munday yn cyferbynnu ofergoelion ac ofn â chrefydd a lletygarwch, a'r un pryd yn plethu straeon o'r Beibl a llenyddiaeth glasurol i mewn i'r gwaith. Mae'r nofel yn ein gorfodi i archwilio ein hunain, ein hymateb i bethau a phobl newydd, a'r ffordd rydyn ni efallai'n defnyddio crefydd i guddio rhag mawredd Duw.

### Aredig

*Tillers of the Soil* yw llyfr Mark Clavier, ac yn rhyfedd iawn mae Clavier yn archwilio themâu tebyg – sut ydyn ni'n ymateb i newid pan fydd yr hen arferion yn diflannu – ond mewn cyd-destun hollol wahanol. Yn hytrach na gorllewin Cymru yn y ddeunawfed ganrif, mae Clavier yn mynd â ni i Fannau Brycheiniog yn y bedwaredd ganrif i brofi bywyd ar aelwyd sy'n cael ei ddylanwadu gan Rufain, Iwerddon, hen arferion Cymreig a ffydd newydd, Gristnogol. Unwaith eto, mae'r llyfr yn ein gorfodi i ofyn cwestiynau pwysig: beth yw fy mherthynas â'r wlad lle dwi'n byw? Pa stori sy'n rheoli fy

*parhad ar dudalen 6*

Yr Adran Gydenwadol

16 Gorffennaf 2026
Rhifyn 281

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru


## O'r byd a'r betws

Colofn Denzil I. John



# Empathi'r Efengyl

Gwyddom fod nifer sylweddol o sioeau amaethyddol yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, a hynny mewn sawl ardal a sir. Y Sioe Fawr yn Llanelwedd sy'n goron ar y sioeau i gyd, wrth gwrs, ond mae'r sioeau llai yn bwysig hefyd, fel y mae'r eisteddfodau lleol yn rhan o'r hyn sy'n greiddiol i wead cymdogaethau Cymru. Eto, mae'r digwyddiad yn Llanelwedd yn hawlio ffocws i gymuned amaethyddol ein gwlad. Mae'n gyfle i weld cynnyrch o'r safon uchaf, y peiriannau mwyaf diweddar, er bod cost y rhelyw ohonynt yn frawychus. I ble'r aeth oes y Ffergi llwyd – y tractor a fu mor arwyddocaol i'r ffarmwr, fel y bu dyfodiad y peiriant golchi dillad i'w wraig?

Dros y tri chwarter canrif diwethaf, aeth mwy na'r tractorau yn fawr. Cydiwyd fferm wrth fferm, ac i'r rhai a oroesodd y broses honno, gwelwyd buchesi godro yn y cannoedd a diadelloedd defaid yn y miloedd. Aeth y dyledion i'r banciau'n arswydus o fawr hefyd, a bu cynnydd yn niferoedd yr amaethwyr a brofodd dywyllwch ofn ac anobaith na allwn ei ddychmygu. Mae'r diwydiant wedi mynd yn frawychus o unig ac arbenigol. Sawl ffermwr sydd wedi cyflawni hunanladdiad yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, a sut mae'r diwydiant yn cynnig cynhaliaeth a chymdeithas i'r sawl sy'n gweld llogau eu dyled i'r banc yn ormesol o fawr?

Yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd eglwysi cefn gwlad Cymru yn ymddangos yn gryf, gyda nifer o amaethwyr y cymunedau'n eistedd yn seddi'r blaenoriaid. Byddent yn selog yn y cyrddau gweddi ac yn gofalu bod y mynwentydd yn cael eu cadw'n daclus. Mae'r oes honno wedi edwino ac mae'r iaith Gymraeg wedi cilio wrth i blant y teuluoedd amaethyddol a werthodd eu tir grwydro i'r dinasoedd i fyw. Diolch am ddygnwch diwylliannol Cymreig yn ein cefn gwlad, a bydd y rhai a fydd yn ymweld ag Eisteddfod y Garreg Las yn siŵr o godi eu calonnau oherwydd hynny.

Diolch hefyd am y cyhoeddiad diweddar fod grantiau ar gael gan Senedd Cymru i hyrwyddo buddsoddiadau i'r amaethwyr sy'n cynnig syniadau i ddatblygu eu busnesau, yn arbennig gyda chynlluniau'n cynnig defnydd o ynni adnewyddol i'r dyfodol. Tybed a welir beudái â phaneli solar yn darparu trydan i leihau costau? A fydd unedau newydd yn magu twrcwns neu ieir ag adnodd adnewyddol tebyg? Sawl busnes amaethyddol fydd yn ystyried bod lleoliadau cyfaddas ar eu tir i godi twrbeini gwynt, neu efallai fod rhaeadrau afonydd yn galw am fentergarwch gosod twrbeini a fydd, dros bum i saith mlynedd, yn darparu trydan ar gyfer y fferm gyfan? Mae'r amaethwyr ar flaen y gad yn gweithio o blaid cynaliadwyaeth yr amgylchedd, ond mae angen cymorth pawb arnynt i hyrwyddo cynaliadwyaeth eu diwydiant a natur ein cymdogaethau

Mae'r ffermwyr sydd wedi goroesi wedi profi bod mentergarwch yn eu hanian, a byddai'n braf meddwl bod yr amaethwyr, o bob sector diwydiannol, yn synhwyro natur Duw yng nghanol byd natur. Mae amaethwyr angen clywed a derbyn newyddion da yr Efengyl gymaint â phawb arall, ac mae angen i'r eglwysi sy'n bodoli yn yr ardaloedd hynny gael deialog yn llawn cydymdeimlad a chefnogaeth â'r amaethwyr hyn. Dyna yw dangos empathi'r Efengyl â heriau'r diwydiant. Oni ddylai'r enwadau gydweithio â'i gilydd i ddarparu adnoddau, i galonogi'r eglwysi i fynd allan at yr amaethwyr a chynnig trafodaeth adeiladol yn wyneb heriau'r dydd? Roedd Iesu yn adnabod yr heuwr a'r bugail, ac mae angen i'r eglwysi hau had a bugeilio'r defaid o'r newydd.






*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 31

## Ymson Bathsheba

Peidiwch â meddwl amdanaf fel merch a roddodd demtasiwn o flaen y brenin. Ro'n i'n ferch i 'nhad, yn wraig briod, yn berson o gig a gwaed â theimladau, urddas ac enw da. Ro'n i'n hardd ar y tu fas a'r tu fewn. A chyn imi fod yn destun sgwrs, a chael fy mhardduo, roedd gen i fywyd.

Ond newidiodd popeth, un noson. Fe'm gwelwyd gan y brenin. Es i ddim ato o'm gwirfodd, ond cael fy ngalw ato wnes i – dyna ddigwyddodd. Roedd yn rhaid imi ufuddhau.

Beth fyddai wedi digwydd imi pe bawn wedi gwrthod? Beth ddylwn fod wedi'i ddweud? 'Na'? Na, i'r brenin? Na, i reolwr byddinoedd? Na, i'r un allai ddewis fy nedfrydu i farwolaeth?

Galwyd yr hyn ddigwyddodd yn berthynas odinebus. Dywedaf innau mai grym oedd ar waith. Gofynnodd rhai pam es i ato. Gofynnaf finnau'n awr pam y meddyliodd y gallai alw amdanaf? 'Roedd hi'n noethlymun,' medd rhai. Atebaf mai fe benderfynodd barhau i wylio.

Dros y canrifoedd, rwyf wedi cael fy meio. Ches i mo'r cyfle i ddweud fy nweud, i'm hamddiffyn fy hun a'm henw da. Duw ŵyr y cyfan; roedd E'n gwybod o'r eiliad y gwelodd y brenin fy nghorff. Ac rydw innau wedi gweld llawer un arall ar fy ôl i. Mae brenhinoedd wedi mynd a dod; mae arweinyddion gwledydd wedi esgyn a disgyn; mae dynion mewn safleoedd uchel wedi ysbrydoli a siomi. Ond yr un yw'r grym bob tro.

Grym sy'n gyrru negeseuon gyda'r nos. Grym sy'n dweud 'Tyrd'. Grym sy'n siarsio bod yn rhaid aros yn dawel er mwyn cadw pethau'n saff. Grym sy'n disgwyl y bydd pawb yn achub ei gam ef yn gyntaf.

Rydych chi wedi gweld merched yn cael eu henwi a'u gwneud yn destun sbort. Gwyddoch, yn siŵr, am ferched galluog yn derbyn cael eu trin yn wael. Gŵyr pawb am ferched yn cael eu gwawdio am ddymchwel rhywun â statws. Ac mae merched yn aml yn methu eu rhyddhau eu hunain o rigolau arferiad.

Canrifoedd gwahanol, ond yr un yw'r sgript. Ac a glywsoch chi am yr un stori'n digwydd yn eich amser chi: mewn swyddfa, coleg, cartref, senedd-dy, ysgol, eglwys? Wyddoch chi?

Peidied neb â theimlo trueni drosof. Ond gofynnaf ichi wrando, oherwydd nid pawb sy'n llwyddo i ymdopi fel y gwnes i. Nid pawb sy'n dod drwyddi. Nid pawb sy'n gallu ymgodymu heb fynd dan y don. Felly, gwrandewch ar y lleisiau na chawsant eu clywed oherwydd bod rhywun pwysicach wedi newid y naratif. Rhywun â mwy o arian, mwy o ddilynwyr, mwy o gynulleidfa.

Ac yna, wedi ichi wrando, gofynnaf ichi dderbyn bod grym yn gallu brifo. Nid cydsynio, cofiwch, yw distawrwydd. Does dim cywilydd mewn ceisio goroesi.

Felly, cofiwch fi, ie, ond nid fel y ferch hardd a welwyd gan lygaid brenin, ond fel y ferch a oroesodd. A pheidied neb â gostwng ei lais wrth ynganu f'enw. Codwch eich lleisiau, yn uchel. D'wedwch fy enw a'i arddel ag urddas.

Oherwydd heddiw, yn rhywle, mae merch arall yn crefu am gael ei chredu.

**Holi**

- Sut mae darllen y stori hon drwy lygaid grym yn hytrach na thrwy lygaid temtasiwn yn newid ein dealltwriaeth?
- Darllenwch 2 Samuel 11:1–27. Beth ddywed y darn am ddewisiadau Bathsheba a Dafydd, a beth gaiff ei hepgor?
- Ydyn ni'n gweld grym anghyfiawn yn effeithio ar bobl sy'n codi eu llais yn ein cyfnod ni? Ystyriwch y gweithle, ysgolion, eglwysi, bywyd cyhoeddus, cylchoedd cymdeithasol.
- Oes modd i ni, Gristnogion, gydnabod bod rhai sefyllfaoedd yn bodoli lle mae grym yn cael ei gamddefnyddio? Oes cyfrifoldeb arnom ni i ofalu am y rhai mwyaf bregus yn hyn o beth?
- Sut gall yr Eglwys fod yn fan diogel a chynhwysol, lle mae pobl yn teimlo'n saff i siarad am sefyllfaoedd, gwirioneddau, a chyfiawnder? A pha gamau cadarnhaol y gallwn eu cymryd fel eglwysi i sicrhau bod gras a chariad yn amlwg ac yn weithredol i bawb?

**Gweddi**

Gofynnwn am ddealltwriaeth,
pan fo'r pwnc yn ddyrys.
Gofynnwn am fewnwelediad,
pan nad yw'r darlun yn glir.
Gofynnwn am amynedd,
pan fyddwn yn rhwystredig.
Gofynnwn am urddas,
pan nad ydym yn gyfforddus.
Gofynnwn am ddewrder,
pan fo angen ymgodymu â sefyllfa.
Gofynnwn am obaith,
pan fo anobaith â'i grafangau ynom.
Gofynnwn am ddatgloi'r drws,
pan fo'r clo'n rhydlyd.
Gofynnwn am fôn braich i chwalu'r muriau, pan fo'r cerrig yn galed.
Gofynnwn am gyhyrau gwydn i nofio yn erbyn y lli, pan fo'r cerrynt yn gryf.
Gofynnwn am ddatod rhwymau,
pan fo'r clymau'n dynn.
Gofynnwn am gymorth. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 19 Gorffennaf 2026**

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 19 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor, Morfa Nefyn

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 19 Gorffennaf am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad John Pritchard, Llanberis

# Gwaith Cyngor Ysgolion Sul Cymru, 2025

**Crynodeb o'r adroddiad a gyflwynwyd gan Aled Davies i gyfarfod blynyddol Cyngor Ysgolion Sul Cymru ddechrau Mehefin eleni.**

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw yn crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2025. Bu hon yn flwyddyn lle cafwyd cyfle i deithio ac ymweld â nifer o Henaduriaethau, Cymanfaoedd a Chyfundebau ledled y wlad, a chyfarfod arweinwyr ar draws yr enwadau.

Daeth cyfle i drefnu ambell noson adnoddau, yn ogystal â mynychu'r gwyliau enwadol a'n gwyliau cenedlaethol. Mae ein gwaith ar y gwefannau'n parhau, a datblygwyd adrannau newydd o fewn ysgolsul.com a cristnogaeth.cymru yn benodol. Cyhoeddwyd naw cyfrol newydd yn ystod y flwyddyn, a threfnwyd cyfarfodydd lansio a hyrwyddo ar eu cyfer.

Erbyn hyn mae adnoddau Cymraeg cyfoes addas ar gael ar gyfer pob achlysur, bron: cynnal ysgolion Sul (o leiaf wyth cyfres amrywiol o werslyfrau), clybiau plant ac ieuenctid, Llan Llanast, Chwarae a Chredu, deunydd addoli Roots ac adnoddau ar gyfer ymweld ag ysgolion dyddiol.

Yr her bellach yw annog ac ysbrydoli pobl yn lleol i fynd ati o ddifri, gan gydweithio o fewn ardaloedd – ac yn gydenwadol lle mae hynny'n ymarferol. Bydd yn braf cael cydweithio ag enwadau a mudiadau Cristnogol eraill i wireddu hynny, mewn cyfnod lle mae cyfartaledd oed ein cynulleidfaoedd eglwysig yn codi.

Rhai o'r llyfrau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2025 oedd:

*Gweddïo sy'n Bywhau* – addasiad Meirion Morris o *Reviving Prayer*

*Hoff Adnodau'r Cymry* – 60 o Gymry yn rhannu am eu hoff adnodau yn y Beibl

*Llwybr Cadfan* – cyfrol farddonol yn dilyn Llwybr Cadfan, gan Siôn Aled a Sian Northey

*Dyrys Daith* – cyfrol yn ymateb i heriau newid hinsawdd, gan Huw John Hughes

*Reit Rownd* – hanes taith ffydd Aled Jones Williams

*Yng Ngolwg Ffydd* – 60 myfyrdod gan Owain Llŷr Evans

*Cyrraedd Bannau* – cyfrol hunangofiannol gan Aled Edwards

*Bywyd â Phwrpas* – addasiad Cymraeg Arwel Ellis Jones o *The Purpose Driven Life* gan Rick Warren

*Trwy'r Anialwch* – Trystan Owain Hughes yn trafod pererindod, dioddefaint a gobaith.

Treuliwyd amser hefyd yn gweithio ar lyfrau newydd ar gyfer 2026:

*Cenhadaeth y Cymry* – cyfrol ar genhadon Cymreig gan D Ben Rees

*Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg* gan John Tudno Williams

*Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr – bywgraffiadau o rai o wragedd amlwg bywyd ffydd Cymru dros y 50 mlynedd olaf.

Mae nifer o gyfrolau eraill hefyd ar y gweill i'w cyhoeddi yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Mae gwaith ar ein pum gwefan yn parhau. Dyma grynodeb o'r prif ddatblygiadau:

www.ysgolsul.com – adrannau newydd: Blynyddoedd cynnar, Bedydd, Derbyn a Chonfformasiwn, Lle plant ym mywyd yr eglwys a chwrs hyfforddiant Theology X i weithwyr plant;

www.cristnogaeth.cymru – adrannau newydd: Dwyieithrwydd a dysgwyr, Iechyd a hunan-les, Technoleg yn yr eglwys, Cyrsiau cyflwyno ffydd, ffydd a gwleidyddiaeth a phererindod;

www.gair.cymru – ychwanegwyd tua 300 o ffeiliau o adnoddau i'w lawrlwytho;

www.gobaith.cymru – ychwanegwyd 40 o ganeuon Cristnogol cyfoes, ynghyd â mynegair beiblaidd a rhestr emynau dwyieithog.

Yn ystod 2025 cyflwynwyd saith Medal Gee mewn pedwar lleoliad gwahanol. Braf oedd gweld capeli llawn ar gyfer anrhydeddu selogion lleol.

Mae ein gwaith o gynnal deunydd addoli Roots yn parhau, ac ar hyn o bryd mae tipyn o newidiadau yn yr arfaeth, gan gynnwys gwefan newydd sbon a dylunwaith hollol newydd i




gynnwys y cylchgrawn print. Mae nifer y tanysgrifwyr yn parhau'n gyson ac adborth cwsmeriaid yn werthfawrogol iawn o'r adnoddau. Bydd y gweddïau Cymraeg wythnosol, ynghyd â dewisiadau emynau a dwy daflen waith wythnosol i blant yn parhau yn Gymraeg. Mi fyddaf yn gweithredu fel Cadeirydd Roots o 2025 hyd ddiwedd 2026.

Mewn dyddiau heriol, diolchwn am bob arwydd gobeithiol a welir ledled Cymru. Diolch am bob arweinydd a gwirfoddolwr sy'n ymdrechu i gynnal gweithgarwch i blant a'u teuluoedd. Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein hawydd fel Cyngor i gefnogi sefydlu mentrau newydd (neu aildanio gwaith sy'n dioddef), a'n parodrwydd i gyfarfod er mwyn trafod opsiynau a'r hyn sy'n ymarferol ac yn bosib o fewn ein cymunedau lleol.

Diolch am gefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Cyngor i'r gwaith – yn ariannol ac yn ymarferol. Rydym yn ddiolchgar am gael cyfle i gydweithio a gwasanaethu'r gwahanol enwadau sy'n ffurfio bwrdd rheoli'r Cyngor. Diolch i Mererid Mair am fod yn gefn i'r gwaith fel Cadeirydd, ac am bob cydweithio hapus hefyd rhwng Kathryn Morris a Rheinallt Thomas sy'n gofalu am y wedd ariannol. Yn ystod y flwyddyn bu i Dyfrig Rees ymddeol, a braf oedd cael croesawu ei olynydd, Elinor Wyn Reynolds, i ymuno fel ymddiriedolwr newydd i'r Cyngor ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Gan ddiolch am bob cydweithrediad ac ymddiriedaeth,

*Aled Davies, Cyfarwyddwr*

# Proffwydi Cymru heddiw – parhad




mywyd i? Ydy hi'n bosibl i fi gydweithio â phobl sy'n wahanol i fi i greu un stori sy'n ein huno yn hytrach na'n gwahanu?

### Gwirionedd

Ac wedyn roedd Elinor Wyn Reynolds yn trafod ei llyfr *Gwirionedd*, teyrnged i'r cariad rhwng merch a'i thad, ond hefyd ddadansoddiad onest, cignoeth a barddonol o'r profiad cymhleth o alaru. Mae Elinor yn rhoi geiriau (a chaniatâd) i ni fynegi ein hemosiynau dyfnaf – a dyma, wrth gwrs, fraint a chyfrifoldeb y bardd a'r awdur. Dyma nofel sydd wedi gwneud i fi chwerthin a chrio bob yn ail, oherwydd mae Elinor yn defnyddio'i phrofiad personol hi, yn ogystal â'i dawn ryfeddol i sylwi a disgrifio, i dynnu llun hollol onest o deulu mewn galar. Yn enwedig heddiw, pan na fydd mwyafrif pobl Cymru'n mynd i eglwys neu gapel ar y Sul, dylen ni fod mor ddiolchgar i awduron a beirdd Cristnogol sy'n defnyddio'u doniau i gyfleu gobaith a chariad Iesu Grist drwy eu nofelau a'u barddoniaeth.

### Gwrandewch a phrynwch

Os hoffech chi glywed y cyfweliad, mae e ar gael ar BBC Sounds – ac wedyn, prynwch eu llyfrau nhw, rhowch nhw fel anrhegion a'u darllen nhw! Am fraint i gael awduron mor dalentog yn ein mysg ni yng Nghymru heddiw, ac awduron sy'n barod i fynegi eu ffydd mewn ffordd mor ddiddorol!

**Rosa Hunt yn *Cenn@d***

# WRTH Y LLYW #16

Fis Mai eleni (14/5) bu cyfle i ymweld â chwrdd chwarter Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Gyda'r cyfle, daeth croeso mawr a chynnes. Cafwyd enghraifft o ymarfer da gan y cyfundeb hwn sef, https://cyfundeb.com/. Hybir a lledir gwaith a gweinidogaeth eglwysi'r cyfundeb trwy amrywiol gyfryngau gan gynnwys y wefan hon sydd yn ddeniadol a chyfredol. Ym myd masnach nid oes neb yn amau'r gosodiad, 'It pays to advertise,' a dylem gofio ac ystyried i Iesu ei hun annog rhywbeth hynod debyg i hysbysebu ar ei ganlynwyr, pan ddywedodd, **'**Llewyrched felly eich goleuni gerbron dynion.' (Mathew 5:16) Crefydd aneffeithiol yw'r grefydd swil. Nid oes i'r broffes Gristnogol rym, onid yw'n broffes gyhoeddus. Dywedir – o hyd ac o hyd – fod llai a llai o'n pobl yn dal unrhyw fath o berthynas ystyrlon ag eglwys leol yn y wlad hon bellach. Onid sialens i ni i ddod i'r amlwg yw honno? Y mae pob math o gyfleusterau a chyfryngau o fewn ein cyrraedd i arddel ein ffydd, os ydym o ddifrif.

Cynhaliwyd y cwrdd chwarter yng nghapel Gibeon, ger Sanclêr. Saif Gibeon yng nghysgod Pen-y-gaer: gweddillion amddiffynfa o'r Oes Haearn. Diolch i Alun Lenny am yr wybodaeth gefndirol, ac ymddiheuriadau rhag blaen am fy niffygion archeolegol. Gwan ydym: 'achos Iesu/ Yn eiddil a di-glod' (Elfed; 1860–1953). Er mor wan ydym, plant i Dduw ydym. Mae anferthedd anferth Duw yn ein cynnal. Mae cadernid cadarn y cadarnaf yn ein cadw: 'yno, f'enaid, gwna dy nyth.' (Dyfed; 1850–1923). Bregus yw nyth aderyn, ond pan adeilader y nyth yn agen y graig, daw cadernid y graig yn gadernid i'r nyth.

Gwelir olion hefyd o hen glawdd crwn, a bod Gibeon, digwydd bod, yn sefyll o fewn orbit y cylch hwnnw. Ein trafferth ni heddiw yw ein bod wedi mynd yn ormod o *insiders* crefyddol, a chrefydda wedi mynd yn ddim ond cynnal y clawdd. Nid yw'n syndod ein bod yn sôn byth a hefyd am fethiant a dirywiad oherwydd *insiders* ydym yn honni ein bod yn ddilynwyr i Grist Iesu, yr *outsider* mawr. Ei genhadaeth oedd mynd â chrefydd allan – tros y clawdd – i ganol bywyd, sydd yn dod â ni, *full circle*, yn ôl i waith da y cyfundeb hwn yn lledu'r sôn am waith Duw yng Nghrist trosom, ynom ac erom.

**Owain Llŷr Evans**



## Panel Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr

**ARWYN OWEN HUGHES**
Llithfaen

**SIAN MEINIR**
Penarth

Hyfrydwch yw nodi fod y ddau fyfyriwr uchod wedi cwblhau cwrs academaidd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig, ac yn agored i dderbyn galwad oddi wrth yr eglwysi.
I dderbyn eu manylion cyswllt, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu, sef y Parchg Carwyn Siddall:
07732974819
carwyn@annibynwyr.cymru

Dymunwn fendith Duw ar y ddau ohonynt.

# Golygyddol

## Rhiannon a Phwyll

Oesoedd yn ôl, yn y 1970au, cynhaliwyd mabolgampau'r sir, yng nghaeau Coleg y Normal, safle'r George ar lan afon Menai. Roedd hi'n hwyr y dydd ar ddiwrnod braf o haf hirfelyn, tesog a'r prif gystadlaethau wedi hen ddarfod. O ganlyniad roedd pobl wedi dechrau ymadael dow-dow. 'Teg edrych tuag adref,' meddent, wedi diwrnod ysblennydd o gystadlu. Roeddwn i'n eistedd ar y bonc, gyda gwelltyn yn fy ngheg yn gwag-symera ac yn rhyw bendroni beth fyddwn yn ei gael i swper. Sglodion fwy na thebyg! Yna'n ddirybudd dyma Joc - un o'r athrawon ymarfer corff - yn gweiddi yn Saesneg gydag acen drom Albanaidd, 'Oes yna unrhyw un o ddisgyblion Ysgol Friars dal yma gan nad oes digon o redwyr ar gyfer y ras gyfnewid 200m.' Gwelodd fi, ac yn ddigon swta fe'm consgriptiwyd yn brop 17 stôn i fod yn un o'r rhedwyr. Fi oedd y cyntaf o'r pedwar i redeg yn erbyn bechgyn gwisgi ysgolion eraill y sir. Taniwyd y gwn, trodd fy nghoesau'n blwm. Rhedai pawb arall fel milgwn gan fy ngadael i yn eu sgil yn bell ar eu holau. Wrth iddynt gyrraedd y 200 a throsglwyddo eu pastynau i'r nesaf, nid oeddwn i wedi rhedeg 30m. Roeddent yn bell ar y blaen ac ni allwn gystadlu â hwy.

### Ffrwyno

I mi, mae hwn yn ddarlun o'r hyn sydd wedi digwydd rhwng technoleg a chymdeithas yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae technoleg wedi datblygu i'r fath raddau fel nad ydym wedi gallu cloriannu ei ddylanwad na'i arwyddocâd. Nid yw gwleidyddion, sefydliadau nac eglwysi wedi gallu ymgyfarwyddo â datblygiadau cyfryngau cymdeithasol, apiau na Deallusrwydd Artiffisial yn ddigon cyflym. O ganlyniad y mae cwmnïau pwerus wedi cael rhwydd hynt i wneud beth fyw fyd a fynnant heb neb i'w ffrwyno. Ac ofer, yn fy marn i, yw gofyn i gwmnïau a sefydliadau i hunan-reoleiddio gan fod pawb ohonom yn amherffaith.

Fel gyda chymaint o ddatblygiadau newydd yn hanes dynoliaeth y mae elfennau da a drwg yn perthyn iddynt, bendithion a melltithion yn gymysg â'i gilydd. Felly, y mae'n bwysig fod cymdeithas yn rheoli'r dylanwadau drwg a niweidiol gan hyrwyddo defnydd da, ac amddiffyn plant, pobl ieuanc ac oedolion. Ac mae gennym ni fel eglwysi ran i'w wneud yn hyn.




### Gwahardd

Da oedd clywed, felly, am fwriad Llywodraeth Sant Steffan i wahardd plant dan 16 oed rhag defnyddio rhai cyfryngau cymdeithasol oherwydd eu dylanwad niweidiol. Dyma rai rhesymau a roddir:

1. Mae pobl ddieithr yn gallu cysylltu yn uniongyrchol â phlant heb ganiatâd eu rhieni.
2. Mae plant ac ieuenctid yn gallu dod o dan ddylanwad pobl sydd ag agweddau niweidiol. Dylanwadant ar ieuenctid gydag agweddau drwg a thywyll, e.e. hiliaeth, misogini (casineb tuag at fenywod), hunanladdiad, gamblo, pornograffi, a.y.b. Gwelant bethau na ddylent eu gweld sy'n creithio eu meddyliau am oes.
3. Mae anfoesoldeb a chelwydd yn rhemp ar y cyfryngau a llawer o fudreddi'n cael ei gynhyrchu heb neb i'w blismona'n effeithiol.
4. Mae algorithmau'n targedu pobl ac mae cwmnïau yn gallu perswadio pobl i wneud pethau annoeth ac i wario'n wirion.




Mae rhai gwledydd eisoes yn ystyried gwahardd plant ac ieuenctid rhag defnyddio rhai elfennau digidol gan ddilyn esiampl Awstralia sydd eisoes wedi gwneud hyn? Beth feddyliwch chi? Onid yw'n bryd i ni godi llais yn erbyn grym technoleg sy'n gallu rheoli pobl ac effeithio yn fawr ar brosesau gwleidyddol?

Deuwn yn ôl at un o'r sylfeini Cristnogol sef nad oes unrhyw beth i gymryd lle Duw yn ein bywydau.

> [3]Does dim duwiau eraill i fod gen
> ti, dim ond fi.
> [4]Paid cerfio eilun i'w addoli –
> dim byd sy'n edrych fel unrhyw
> aderyn, anifail na physgodyn.
> [5]Paid plygu i lawr a'u haddoli
> nhw.
>
> (Exodus 20)

Mae elfen o eilunaddoliaeth yn ein hagwedd tuag at ein ffonau symudol a'n defnydd ohonynt. Llyncant ein hamser, dylanwadant arnom, awgrymant flaenoriaethau a defnyddiwn hwy fel ffynhonell pob gwirionedd.

Mae angen i ni fel Cristnogion i fynd i'r afael â hyn gan chwilio am yr arweiniad a rydd Duw i ni yn ei air.

**Alun Tudur**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**
**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,**
**Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,**
**LL49 9UE**
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

**Alun Lenny**
**Porth Angel, 26 Teras Picton**
**Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**
***Ffôn:* 01267 232577 /**
**0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

*Dalier Sylw!*
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# Pererindod i ardal Eisteddfod y Garreg Las

'Diwrnod ffantastig,' Dyna oedd y farn gyffredinol ar ôl pererindod gofalaeth Bethesda'r Tymbl, Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pont-iets yn ddiweddar. Yn y bore fe wnaeth pawb deithio o Gwm Gwendraeth i ardal Eglwyswrw ger Aberteifi ac i gapel Ebeneser, Dyfed. Yno cafwyd oedfa hyfryd dan ofal y Parchg Sian Elin Thomas. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb gymdeithasu gyda'i gilydd dros baned a chacen. Yna aeth y bws ymlaen i westy Llwyn Gwair lle gwnaeth pawb fwynhau pryd blasus dau gwrs.




*Pawb tu fas i gapel Ebeneser, Dyfed*



*Cymdeithasu ar ôl yr oedfa*



*Ymweld â chastell Cilgerran*

Yn y prynhawn fe wnaeth cadeirydd Eisteddfod y Garreg Las, sef John Davies, Cwmbetws, dywys pawb o gwmpas yr ardal gan gynnwys ymweld â maes yr eisteddfod ac ymweld â chastell Cilgerran. Cawsom wledd o wybodaeth ganddo am hanes a diwylliant ardal yr eisteddfod a hynny wedi ei drosglwyddo mewn ffordd hamddenol a diddorol.

Yna teithio am adref gan gyrraedd 'nôl yng Nghwm Gwendraeth tua 6 y nos. Cawsom ddiwrnod i'w gofio gydag un o'r aelodau yn disgrifio'r diwrnod fel un o ddiwrnodau gorau ei bywyd. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at y bererindod mewn unrhyw ffordd.

**Guto Llywelyn**

## Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan

### Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Mae Eglwys Gymraeg Canol Llundain, Oxford Circus, yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, egnïol ac ymroddedig sy'n arddel ffydd Gristnogol i ymuno â ni fel Gweithiwr Ieuenctid a Swyddog Datblygu Ymestyn Allan.

Bydd y rôl yn cynnig cyfle cyffrous i gryfhau a meithrin perthynas â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n byw yn Llundain, gan eu cefnogi a'u hannog i ymgysylltu â bywyd yr eglwys a'r gymuned Gristnogol ehangach.

Swydd fydd hon am gyfnod cychwynnol o 12 mis, gydag adolygiad perfformiad ar ôl 6 mis. Bydd y termau cyflogi i'w drafod yn ôl cymwysterau a phrofiad.

**Dyddiad dechrau: Medi 2026**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 13 Gorffennaf 2026**

Am fwy o fanylion, swydd-ddisgrifiad llawn a ffurflen gais, cysylltwch â'r gweinidog, y Parchg Robert Nicholls: rob.nicholls75@gmail.com

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*